------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 3 Chwefror 2020

Amser: 13.00


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@cynulliad.cymru


---

## (Rhag-gyfarfod preifat)

(13.00 - 13.15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.15)

## 2 Papur(au) i'w nodi

### 2.1 Fy Ngherdyn Teithio: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (16 Ionawr 2020)

(Tudalennau 1 - 6)

### 2.2 Cymorth Ariannol gan Lywodraeth Cymru i Fusnesau: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (23 Ionawr 2020)

(Tudalen 7)

## 3 Cyfarwyddyd Gweinidogol - Trefniadau pensiwn y GIG ar gyfer 2019/20: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

(13.15 - 14.30) (Tudalennau 8 - 29)

Brîff gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)-05-20 Papur 1 - Gohebiaeth gan yr Ysgrifennydd Parhaol (20 Rhagfyr 2019)

PAC(5)-05-20 Papur 2 - Gohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (6 Ionawr 2020)

Shan Morgan - Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru

Dr Andrew Goodall - Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru

David Richards - Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Moeseg

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(14.30)

Eitem 5

## 5 Cyfarwyddyd Gweinidogol - Trefniadau pensiwn y GIG ar gyfer 2019/20: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law.

(14.30 - 15.00)

**Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**
**Economy, Skills and Natural Resources Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

16 Ionawr 2020

Annwyl Gadeirydd

**Cynllun tocynnau bws rhatach Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc – FyNgherdynTeithio**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Hydref yn gofyn am eglurhad pellach ynghylch nifer y bobl ifanc 19-21 oed sy'n ddeiliaid y pasys FyNgherdynTeithio a dull gweithredu Llywodraeth Cymru o farchnata'r cynllun. Mae'n ddrwg gennyf am yr anghysondeb o ran y ffigurau a ddarparwyd gennym yn flaenorol, ac rwy'n gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn mynd i'r afael â'r amryfal bwyntiau a godwyd gennych.

**Nifer y bobl ifanc 19-21 oed sy'n ddeiliaid y pasys FyNgherdynTeithio**

Nododd fy llythyr dyddiedig 1 Hydref 2019 mai nifer y bobl ifanc 19-21 oed a oedd yn ddeiliaid y pasys ym mis Awst 2019 oedd 551. Roedd hynny'n anghyson â'r wybodaeth flaenorol a ddarparwyd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a nododd fod 834 o ddeiliaid y pasys ym mis Mai 2019.

Rydym wedi bod yn gweithio i gael deall pam mae'r niferoedd hynny a nodwyd wedi newid. Mae swyddogion trafnidiaeth yn cael gwybodaeth reoli oddi wrth ddarparwyr gwahanol, gyda'r data yn cael ei gyflwyno mewn ffyrdd gwahanol. Rydym bellach yn ymwybodol bod rhai o'r ffigurau a ddarparwyd yn flaenorol yn anghyflawn ac nad oeddent yn cynnwys ceisiadau drwy'r post. Yn ogystal, gwyddom fod yr oedi anochel wrth ddiweddaru'r systemau a ddefnyddir ar gyfer cardiau newydd a gymeradwywyd, a chardiau a dynnwyd yn ôl − er enghraifft, wrth i bobl fynd yn rhy hen i fod yn gymwys − hefyd wedi arwain at anghysondeb o ran y data.

ACT, sef ein darparwr cefn swyddfa, sy'n gweithredu'r gronfa ddata o deithiau gan ddeiliaid FyNgherdynTeithio a ddefnyddir gan y diwydiant bysiau i gofnodi'r teithiau bws pris gostyngol (a rhatach). Rydym yn cydweithio ag ACT ar gyflwyno adroddiadau am ddata, ond rydym wedi cytuno â nhw ar ba set ddata y dylid ei defnyddio er mwyn sicrhau cysondeb wrth gyflwyno adroddiadau yn y dyfodol. Ar y sail hon, dylai'r ffigurau a nodwyd ar gyfer yr ystod oedran 19-21 fod wedi dangos bod 931 o gardiau dilys wedi'u creu erbyn diwedd Mai 2019; 1,619 o gardiau erbyn diwedd Awst 2019; a 4,547 o gardiau erbyn diwedd Hydref 2019.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE



Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 02920 82 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad yn ôl ystod oedran o nifer y cardiau teithio dilys a grëwyd bob mis rhwng Ionawr a Hydref 2019. Mae'r cynnydd sylweddol yn Hydref 2019 i’w briodoli i’r gwelliannau o ran marchnata'r cynllun, fel y dangosir isod.

**Dull gweithredu Llywodraeth Cymru o farchnata'r cynllun**

Mae Atodiad 2 yn nodi manylion y gweithgareddau marchnata a gynhaliwyd ers Ionawr 2019.

Fe welwch ein bod wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r cynllun gan ei fod yn ddull manwl iawn o dargedu'r prif gynulleidfa (pobl ifanc 16-21 oed) a'r gynulleidfa eilaidd (rhieni a gwarcheidwaid pobl ifanc 16-18), ac oherwydd bod modd mesur ei effaith.

Hysbysebion Facebook a Snapchat Top Snaps oedd y dulliau gorau o ymgysylltu â phobl ifanc 16-21 oed. Nid oedd y canlyniadau cystal â'r disgwyl o ran hysbysebion arddangos a hysbysebion sain.

Roedd UCAS Media yn berfformiwr digidol rhagorol, gan ei fod yn targedu 10,000 o fyfyrwyr newydd sy'n mynychu Prifysgolion yng Nghymru. Mae mynd i ddigwyddiadau wythnos y glas yn ddull pwysig iawn o gyrraedd y gynulleidfa darged i greu ymwybyddiaeth ac annog pobl i gofrestru.

Ni ellir mesur gweithgareddau ategol (e.e. posteri safleoedd bws), ond mae'n parhau’n ddull marchnata pwysig i helpu i greu creu ymwybyddiaeth o’r cynnyrch.

Gobeithiaf y bydd yr wybodaeth hon o gymorth ichi wrth ichi ystyried y mater ymhellach.

Dymuniadau gorau

Yn gywir

Yours sincerely,

**ANDREW SLADE**
**Director General**
**Economy, Skills and Natural Resources Group**

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 02920 82 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

**Atodiad 1: Nifer y cardiau teithio dilys a grëwyd ar gyfer pob ystod oedran o Ionawr i Hydref 2019**

| Oedran | Ion-19 | Chw-19 | Maw-19 | Ebr-19 | Mai-19 | Meh-19 | Gor-19 | Aws-19 | Med-19 | Hyd-19 | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 15 | 4 | 0 | 2 | 6 | 7 | 20 | 20 | 34 | 0 | 4 | **97** |
| 16 | 265 | 87 | 125 | 364 | 334 | 429 | 541 | 926 | 1,336 | 1,557 | **5,964** |
| 17 | 163 | 72 | 104 | 244 | 228 | 195 | 235 | 224 | 334 | 744 | **2,543** |
| 18 | 23 | 22 | 83 | 185 | 186 | 149 | 161 | 332 | 412 | 1,608 | **3,161** |
| 19 | 0 | 26 | 192 | 214 | 166 | 55 | 138 | 196 | 261 | 1,162 | **2,410** |
| 20 | 0 | 10 | 92 | 88 | 68 | 23 | 92 | 97 | 158 | 783 | **1,411** |
| 21 | 0 | 0 | 25 | 22 | 28 | 6 | 29 | 52 | 79 | 485 | **726** |
| **CYFANSWM** | **455** | **217** | **623** | **1123** | **1017** | **877** | **1216** | **1,861** | **2,580** | **6,343** | **16,312** |

Ffynhonnell data: Adroddiad system ACT Analytics: hyd at ddiwedd mis Hydref 2019

**Atodiad 2: Gweithgareddau marchnata a gynhaliwyd ers Ionawr 2019**

| Cyfrwng | Amseriad a chynulleidfa | Effaith |
|---|---|---|
| Deunydd newydd ar wefan FyNgherdynTeithio. | Rhagfyr | Mae'r safle hwn yn tynnu sylw at yr holl weithgareddau ar y cyfryngau cymdeithasol, y gweithgareddau digidol a'r gweithgareddau ategol |
| Datganiadau i'r wasg - cyhoeddi ymestyn yr ystod oedran i 21 | Tachwedd/Rhagfyr<br>Erthyglau ar-lein ar:<br>• Newyddion BBC Wales<br>• Newyddion ITV | |
| Deunydd newydd ar wefannau allanol | O Ionawr 2019<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot<br>• Cyngor Gwynedd<br>• Prifysgol Abertawe<br>• Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe<br>• Prifysgol Metropolitan Caerdydd<br>• Cyngor Sir y Fflint<br>• Grŵp colegau Coleg Castell-nedd Port Talbot<br>• Coleg Dewi Sant<br>• Ysgol Greenhill Dinbych-y-pysgod<br>• Cyngor Wrecsam<br>• Gov.UK – Gostyngiad i brentisiaid | |
| Ymgyrch y gwanwyn - hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol<br>• Facebook | Chw/Maw/Ebr<br>• Facebook – i dargedu rhieni | Facebook – 2,304 o ymwelwyr â'r wefan<br>Instagram – 926 o ymwelwyr â'r wefan |

| Cyfrwng | Amseriad a chynulleidfa | Effaith |
|---|---|---|
| • Snapchat – Top Snaps<br>• Instagram | • Instagram a Snapchat – targedu pobl ifanc 16-21 oed | Snapchat – 14,387 o bobl yn gweld yr hysbyseb |
| Deunydd newydd wedi ei ddrafftio, ei anfon ac wedi ymddangos ar wefannau'r gweithredwyr: | Ionawr<br>• Stagecoach<br>• Travel Line<br>• Arriva<br>• First Cymru<br>• Bws Caerdydd<br>• Bwcabus<br>• Trafnidiaeth Cymru | |
| Ymgyrch yr hydref - hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol a hysbysebion digidol<br>• Facebook<br>• Snapchat<br>• Spotify Audio<br>• Baneri Arddangos | Medi/Hydref<br>• Facebook a baneri arddangos – targedu rhieni a gwarcheidwaid yng Nghymru drwy'r Daily Mail, Mums Net, Wales Online, Mirror, eBay, Sky Sports, South Wales Argus, Diply<br>• Snapchat a Spotify – targedu pobl ifanc 16-21 oed yng Nghymru | Arweiniodd hyn oll at dros 24 mil o ymwelwyr â'r wefan<br>Facebook – 3,960 o ymwelwyr â'r wefan<br>Snapchat – 19,214 o bobl yn gweld yr hysbyseb<br>Baner arddangos - 1,127 o ymwelwyr â'r wefan |
| Hysbysebion safleoedd bws | Medi/Hydref<br>• 2 safle digidol yng Nghaerdydd ac Abertawe (ger campysau prifysgol) gydag 1 miliwn o bobl yn gweld yr hysbysebion<br>• 44 o safleoedd poster sefydlog (13 yn y gogledd; 16 yn y de; 15 yn y de-ddwyrain) | |

| **Cyfrwng** | **Amseriad a chynulleidfa** | **Effaith** |
|---|---|---|
| Digwyddiadau wythnos y glas mewn prifysgolion a cholegau ledled Cymru | O fis Medi<br>• 26 o ddigwyddiadau wedi eu mynychu hyd yma. Rhagor i ddilyn yn y flwyddyn newydd | |
| UCAS media | Medi<br>• Wedi targedu 10,000 o fyfyrwyr newydd sy'n dechrau ym mhrifysgolion Cymru | • Agorwyd y wefan 6,429 gwaith<br>• 1,159 o ymwelwyr unigol |
| Hysbysebion ar fysiau | Medi/Hydref<br>• 3 x cyhoeddusrwydd First Bus yn y de-ddwyrain | |

**Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**
**Economy, Skills and Natural Resources Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

23 Ionawr 2020

Annwyl Gadeirydd

**CYMORTH ARIANNOL GAN LYWODRAETH CYMRU I FUSNESAU**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Ionawr ynhylch ymchwiliad presennol y Llywodraeth am y mater uchod. Roedd eich llythyr o gymorth mawr i mi gan ei fod yn nodi sylwadau'r Pwyllgor ynghylch nifer o faterion penodol ac yn gofyn am ddiweddariad erbyn haf 2020.

Gallaf gadarnhau fy mod yn bwriadu ymateb yn llawn i'ch llythyr erbyn 12 Mehefin 2020, er mwyn hwyluso eich trafodaethau pellach.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau.

Dymuniadau gorau.

Yn gywir

**Andrew Slade**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE



Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 02920 82 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

20 Rhagfyr 2019

Annwyl Gadeiryddion Pwyllgorau

Rwyf yn ysgrifennu i'ch hysbysu fy mod i fel Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru yn gofyn am Gyfarwyddyd Gweinidogol i fwrw ymlaen â newidiadau arfaethedig i drefniadau pensiwn y GIG ar gyfer 2019/20.

Mae'r cynnig yn golygu bod GIG Cymru'n cydymffurfio ag ateb GIG Lloegr ar gyfer 2019/20 i fynd i'r afael â'r heriau gweithredol sy'n codi o ganlyniad i'r trefniadau presennol ar gyfer trethi pensiynau. Nid yw cynllun pensiwn y GIG a'r ddeddfwriaeth ar drethi pensiynau wedi'u datganoli inni yng Nghymru.

Mae'r angen am Gyfarwyddyd Gweinidogol wedi codi gan mai cynllunio trethi yw'r cynllun arfaethedig ac felly mae'n codi mater o reoleidd-dra gan nad yw'n gydnaws â pharagraff 5.6.1 o Reoli Arian Cyhoeddus Cymru. Cafwyd yr un mater o reoleidd-dra yn Lloegr.

Er bod cyfarwyddydau'n brin, mae hon yn sefyllfa dra anghyffredin gan fod Lloegr wedi cyhoeddi cyfarwyddyd ar y mater hwn, ac felly nid oes gan Gymru fawr o ddewis ond gwneud yr un peth. Byddai methiant i roi'r newid arfaethedig ar waith yn golygu y byddai clinigwyr y GIG ar eu colled o'u cymharu â chlinigwyr y GIG yn Lloegr.

Cyhoeddodd y Prif Weinidog y cyfarwyddyd yn ffurfiol ar 18/12/2019.

Mae'r Prif Weinidog a minnau'n cytuno am yr angen i fynd i'r afael â'r materion gweithredol sy'n cael eu trafod gan y GIG ac i sicrhau bod staff GIG Cymru yn cael eu trin yr un mor deg â staff y GIG sy'n gweithio yn Lloegr.

Yn gywir,

Shan Morgan

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Drakeford
First Minister
PS.FirstMinister@gov.wales

18 December 2019

Dear First Minister

I am writing to you to formally request a Ministerial Direction.

On 26 November 2019, officials in Health and Social Services Group provided advice to the Minister for Health and Social Services in respect of NHS Pension Tax Proposal 2019/20. The proposal sought to bring NHS Wales in line with NHS England's solution to the tax implications of the pension scheme for clinicians who incur tax charges for undertaking work in 2019/20. This recommendation was subsequently agreed by the Minister for Health and Social Services.

A subsequent review of the mechanism for introducing this solution in England, has enabled us to identify that recommendations in the earlier advice should have drawn attention to the fact that this recommendation raises an issue of regularity due to its contravention of Managing Welsh Public Money (MWPM). MWPM specifically states (para 5.6.1) that *"Public Sector organisations should not engage in or conspire at, tax evasion, tax avoidance or tax planning."*

The same issue of regularity has already been encountered in England (Managing Public Money and Managing Welsh Public Money are aligned on this issue). Therefore, on 22 November the Secretary of State for Health and Social Care issued a Direction to the Accounting Officer for NHS England to proceed with the NHS Pension Tax Proposal 2019/20.

It is my duty as Principal Accounting Officer to ensure the regularity of expenditure within the Welsh Government but the need has arisen for a Direction because tax planning is considered an issue of irregularity. Whilst Directions are rare, this is the exceptionally unusual position that, as a UK Government Minister has issued a

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Direction on this matter in England, I have little alternative but to follow suit and seek one from you for Wales.

Annex A contains the extracts from Managing Welsh Public Money and Managing Public Money regarding tax which give rises to this regularity issue.

Yours,

Shan Morgan

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Annex A**

**Managing Welsh Public Money - Extract**

## 5.6 Tax

5.6.1 Public sector organisations should not engage in, or conspire at, tax evasion, tax avoidance or tax planning. If a public sector organisation was to obtain financial advantage by moderating the tax paid by a contractor, supplier or other counterparty, it would usually mean that the public sector as a whole would be worse off – thus conflicting with the Accounting Officer's duties (see section 3.3). Thus artificial tax avoidance schemes should normally be rejected. It should be standard practice to consult HM Revenue and Customs (HMRC) about transactions involving non-standard approaches to tax before going ahead.

5.6.2 There is of course no problem with using tax advisers to help meet normal legitimate requirements of carrying on public business. These include administration of VAT, PAYE and NICs, where expert help can be useful and efficient.

**Managing Public Money - Extract**

## 5.6 Tax

5.6.1 Public sector organisations should not engage in, or connive at, tax evasion, tax avoidance or tax planning. If a public sector organisation were to obtain financial advantage by moderating the tax paid by a contractor, supplier or other counterparty, it would usually mean that the Exchequer as a whole would be worse off – thus conflicting with the accounting officer's duties (section 3.3). Thus artificial tax avoidance schemes should normally be rejected. It should be standard practice to consult HMRC[3] about transactions involving non-standard approaches to tax before going ahead.

5.6.2 There is of course no problem with using tax advisers to help meet normal legitimate requirements of carrying on public business. These include administration of VAT, PAYE and NICs, where expert help can be useful and efficient.

5.6.3 Proposals to create new taxes in order to assign their proceeds to new spending proposals are rarely acceptable. Decisions on tax are for Treasury ministers, who are reluctant to compromise their future fiscal freedom to make decision.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AC/AM
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Our Ref/ Ein Cyf: MA/FM5845/19

Shan Morgan
Permanent Secetary

ps.permanentsecretary@gov.wales

18 December 2019

Dear Shan,

Thank you for your letter of 18 December 2019 setting out your advice as Principal Accounting Officer on the proposed 'Scheme Pays' arrangements to counter staffing issues in the NHS for this winter period.

I am grateful for the scrutiny which you and other officials have given to this matter.

I note the advice that the scheme proposals involve tax planning and, depending upon the approach to implementation, could be deemed by HMRC to constitute tax avoidance. The proposed measure is therefore incompatible with paragraph 5.6.1. of Managing Welsh Public Money, and is a matter of regularity. In these circumstances I am able to bring to bear a wider consideration of the public interest, and you have requested I consider whether to grant a Direction to proceed with the proposals.

NHS Wales report that senior clinical staff are unwilling to take on additional work and sessions due to the potential tax liability which could in some circumstances lead to tax charges in excess of any additional income earned. This has led to some appointments and operations being delayed. In a recent Written Statement, the Minister for Health and Social Services noted that, between April and August 2019, over 2,000 outpatient, diagnostic, inpatient or daycase sessions have been lost affecting over 15,000 patients.

Let me be clear that I have fundamental disagreements with the solution which has been implemented in England. The tax problems should be resolved by the Treasury, not left to the health budget to absorb. Done properly, the HMRC uncertainties which now arise would have been resolved before, not after a solution was implemented. However, given the pressures experienced by the Welsh NHS following a decade of austerity, we cannot allow a position to develop in which our staff are denied access to arrangements available to their counterparts across our border. I very reluctantly see no option therefore but to put in place

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

temporary solutions while the UK Government is consulting on NHS pension legislation changes from April 2020.

I have considered your advice carefully in the context of the need to protect patient care over the winter, and the wider reforms to NHS pension arrangements expected from April 2020. I will therefore follow the course of action taken in the Department for Health in England and formally to direct you to proceed with the NHS Pension Tax Proposals for 2019/20 so that the same arrangements in England can apply in Wales.

I am copying this letter to Adrian Crompton, Auditor General for Wales and Nick Ramsey AM, Chair of the Public Accounts Committee, Llyr Gruffydd AM, Chair of the Finance Committee and Dai Lloyd AM, Chair of the Health, Social Care and Sports Committee. I also note that your letter and this reply will be published on gov.wales

Best wishes,

Mark.

**MARK DRAKEFORD**

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

**Cyfeirnod:** AC/174/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 6 Ionawr 2020

Annwyl Gadeirydd

## Cyfarwyddyd Gweinidogol: Cynigion Treth Pensiwn y GIG

Fel y byddwch yn gwybod, ar 18 Rhagfyr 2019 rhoddodd y Prif Weinidog Gyfarwyddyd Gweinidogol i'r Ysgrifennydd Parhaol. Roedd hi wedi gofyn am hyn ganddo drwy lythyr o'r un dyddiad, yn rhinwedd ei swydd fel Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru.

Diben y llythyr hwn yw cynorthwyo eich Pwyllgor wrth iddo ystyried y Cyfarwyddyd Gweinidogol, yn unol â pharagraff 3.4.3 yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* a Rheol Sefydlog 18.3 (ii).

### Natur a phwrpas Cyfarwyddyd Gweinidogol

Gan mai dyma'r tro cyntaf y gofynnwyd am Gyfarwyddyd Gweinidogol ac iddo gael ei roi yng Nghymru ers datganoli yn 1999, efallai y byddai'n fuddiol i'ch Pwyllgor pe bawn yn nodi'n gryno natur a phwrpas Cyfarwyddiadau o'r fath.

Mae Swyddogion Cyfrifyddu yn bersonol gyfrifol am eu gweithredoedd a rhaid iddynt allu sicrhau'r Cynulliad Cenedlaethol a'r cyhoedd bod eu huniondeb wrth reoli arian cyhoeddus o'r safon uchaf. Mae'n ofynnol iddynt gadw'r canlynol mewn golwg:

- **Rheoleidd-dr**a – sicrhau bod gwariant o fewn pwerau cyfreithiol a'i fod yn cydymffurfio â'r awdurdod seneddol, gan gynnwys cwmpasau'r gyllideb;
- **Priodoldeb** – sicrhau bod gwariant yn cyd-fynd â'r gwerthoedd a'r ymddygiad a ddisgwylir gan y sector cyhoeddus;
- **Gwerth am arian** – sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth benderfynu ar wariant cyhoeddus; a
- **Dichonoldeb** – sicrhau y gellir gweithredu cynigion gwariant yn gywir, yn gynaliadwy neu o fewn yr amserlen arfaethedig.

Cyfarwyddyd Gweinidogol yw cyfarwyddyd ysgrifenedig i Swyddog Cyfrifyddu i fwrw ymlaen â gwariant y mae'r Swyddog Cyfrifyddu o'r farn ei fod yn torri un neu ragor o'r pedwar maen prawf yma.

Mae'n ofynnol i Swyddog Cyfrifyddu sy'n derbyn Cyfarwyddyd Gweinidogol gydymffurfio â'i gyfarwyddiadau yn brydlon, a chopïo'r papurau perthnasol i'r Archwilydd Cyffredinol. Dylai'r Swyddog Cyfrifyddu fod yn barod i esbonio sut y mae'r Gweinidog yn gweithredu, os gofynnir iddo wneud hynny, ond nid yw'n ysgwyddo cyfrifoldeb personol dros y camau a gymerir i gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd nac am y gwariant cysylltiedig.

Mae Cyfarwyddyd Gweinidogol yn ddigwyddiad cymharol brin yn Whitehall, a 60 yn unig a gyhoeddwyd rhwng 1990 a 2017. Yn gyffredinol, maent yn codi mewn sefyllfaoedd lle mae'r Gweinidog perthnasol yn dymuno symud ymlaen â gwariant sy'n groes i'r cyngor ysgrifenedig ffurfiol a roddwyd i'r Gweinidog hwnnw gan Swyddog Cyfrifyddu ei Adran.

## Y Cyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019 i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru.

Mae adran 3.4 o *'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'* yn nodi'r trefniadau ar gyfer gallu rhoi Cyfarwyddyd Gweinidogol yng Nghymru. Caiff ei sbarduno gan y Prif Swyddog Cyfrifyddu a gofynnir yn ysgrifenedig i'r Prif Weinidog amdano.

Yn yr achos hwn, mae'r mater wedi codi mewn perthynas â gwariant, sydd o bosibl yn afreolaidd gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyflogi GIG Cymru (y byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru), ar ad-dalu i staff clinigol GIG Cymru am unrhyw gostau treth pensiwn y gallant eu hachosi drwy ymgymryd â sifftiau ychwanegol yn ystod blwyddyn dreth 2019-20.

Nid yw Cynllun Pensiwn y GIG a deddfwriaeth treth pensiwn y GIG wedi eu datganoli i Gymru, ac mae Trysorlys ei Mawrhydi wedi gwneud nifer o newidiadau i'r trefniadau treth ar gyfraniadau pensiwn yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno tapro, a gostyngiad hefyd yn y terfyn ar Lwfansau Blynyddol i lawr o dros £200 mil yn 2011-12 i £40 mil yn 2018-19. O ganlyniad, mewn achosion lle mae cyfraniadau pensiwn unigolyn yn mynd dros rai terfynau penodol ar gyfer lwfansau cyfraniadau pensiwn blynyddol a/neu oes, yna caiff yr unigolyn ei drethu ar gyfradd uwch ar ei holl gyfraniadau, gan greu cynnydd sydyn 'ymyl dibyn' yn y dreth y mae'n atebol amdani.

Mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 13 Tachwedd 2019, roedd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi bod cyrff y GIG yng Nghymru:

> 'yn adrodd yn rheolaidd bod staff clinigol uwch yn amharod i ymgymryd â gwaith a sesiynau ychwanegol oherwydd y gallent gael eu cosbi drwy faint y dreth yr oeddent yn atebol i'w thalu. Mewn rhai amgylchiadau gallai hyn arwain at gostau treth ychwanegol oedd yn uwch nag unrhyw incwm ychwanegol a enillid'.

Mae'r goblygiadau treth personol hyn wedi arwain at newid sylweddol mewn ymddygiad, y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei fod yn effeithio ar y gallu i ddarparu gwasanaethau'r GIG i gleifion. Ledled y DU, mae'r GIG yn dibynnu'n helaeth iawn ar glinigwyr yn ymgymryd ag oriau ychwanegol i gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau, llenwi bylchau mewn rotâu a gwaith cyflenwi ar gyfer cydweithwyr sy'n absennol. Mae cyflawni'r oriau ychwanegol hyn yn arwain at fwy

o gyflog ac felly'n cynyddu cyfraniadau pensiwn. Gan fod y tâl ychwanegol hwn yn amrywio ar y cyfan, gall wthio'r cyfraniadau hynny dros 'ymyl y dibyn' ac arwain at atebolrwydd treth ychwanegol sylweddol. Gan ei bod yn anodd i feddygon unigol weithio allan pa sifft ychwanegol unigol fydd yn eu gwthio dros y trothwy treth ychwanegol, yr hyn y mae GIG Cymru wedi ei ganfod yw eu bod yn gwrthod derbyn y sifftiau ychwanegol.

Nododd y Gweinidog yn ei ddatganiad ar 13 Tachwedd:

> Mae hyn wedi arwain at ohirio rhai apwyntiadau a llawdriniaethau, gyda'r wybodaeth a ddarparwyd gan fyrddau iechyd i swyddogion yn awgrymu bod dros 2,000 o sesiynau cleifion allanol, diagnostig, cleifion mewnol neu achosion dydd, wedi cael eu colli rhwng mis Ebrill a mis Awst 2019, gan effeithio ar dros 15,000 o gleifion. Mae meysydd eraill yr effeithiwyd arnynt gan y pryder gwirioneddol ynghylch y goblygiadau treth ychwanegol yn cynnwys:
>
> - staff clinigol uwch ddim yn rhoi eu hunain ymlaen ar gyfer cyfrifoldebau ychwanegol a rolau arweinyddiaeth glinigol megis Cyfarwyddwyr Clinigol;
> - staff clinigol uwch yn dod â'u dyddiadau ymddeol arfaethedig ymlaen a thrwy hynny, ar adeg pan mae lefelau sylweddol o swyddi gweigion, yn lleihau'r capasiti clinigol yn y GIG.'

Er bod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i geisio newid y trefniadau treth a phensiwn er mwyn osgoi'r broblem hon yn y dyfodol, mae unrhyw newidiadau o'r fath yn dra annhebygol o fynd i'r afael â'r effaith o ran darparu gwasanaethau dros weddill y flwyddyn ariannol bresennol, sef y cyfnod o bwysau blynyddol trymaf ar wasanaethau'r GIG.

Wrth fynd i'r afael â'r mater hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi gorfod ystyried y ffordd y mae'r Adran Iechyd a'r GIG yn Lloegr wedi dewis gweithredu. Ar 22 Tachwedd 2019, rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gyfarwyddyd i Swyddog Cyfrifyddu GIG Lloegr i fwrw ymlaen â chynlluniau i ymrwymo i wneud taliadau i staff clinigol y tu allan i gynlluniau pensiwn y GIG er mwyn adfer gwerth eu pecynnau budd-daliadau pensiwn. Yn y bôn, os bydd clinigwyr GIG Lloegr yn dewis defnyddio'r cyfleuster 'Scheme Pays' i setlo costau treth lwfans blynyddol sy'n codi o'u cynilion pensiwn y GIG 2019-20 (h.y. setlo'r gost drwy ostyngiad yn y pensiwn blynyddol, yn hytrach na thrwy wneud taliad untro ar unwaith), yna bydd eu cyflogwyr yn y GIG yn talu'r costau treth hynny ar eu rhan.

Roedd y datrysiad hwn yn gofyn am roi Cyfarwyddyd gan y gallai Cyllid a Thollau EM ei ystyried fel ffordd o osgoi talu treth, ac mae *Rheoli Arian Cyhoeddus* (a adlewyrchir gan yr hyn sy'n cyfateb iddo yng Nghymru) yn datgan yn benodol 'na ddylai sefydliadau'r sector cyhoeddus gymryd rhan mewn ... efadu trethi, osgoi trethi na chynllunio trethi'.

Felly, mae Cyfarwyddyd y Prif Weinidog ar 18 Rhagfyr yn dod â GIG Cymru i gydredeg â'r sefyllfa yn Lloegr, drwy efelychu'r ateb a fabwysiadwyd gan

Weithrediaeth y GIG o dan Gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'n amlwg oddi wrth y llythyrau a gyfnewidiwyd ar 18 Rhagfyr, o ystyried yr effeithiau andwyol posibl ar GIG Cymru yn sgil y penderfyniad yn Lloegr, fod yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Weinidog wedi dod i'r casgliad nad oedd gan Lywodraeth Cymru lawer o ddewis ond dilyn esiampl Lloegr.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am Gynllun Pensiwn y GIG a mecaneg y mesurau lliniaru treth sydd wedi eu cynnwys yng Nghyfarwyddyd y Gweinidog ar wefan Cydffederasiwn GIG Cymru.

## Y Posibilrwydd y bydd y Cynulliad yn archwilio'r Cyfarwyddyd Gweinidogol

Rwyf yn falch i weld bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd yr awenau drwy ddarparu copïau o'r ohebiaeth i Gadeiryddion Pwyllgorau Cyfrifon Cyhoeddus, Cyllid ac Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Cynulliad Cenedlaethol. Lle'r Cynulliad yw penderfynu ar y ffordd orau o graffu ar Gyfarwyddiadau Gweinidogol ac awgrymaf ei bod yn debygol y bydd angen cydlynu gweithgarwch i ryw raddau.

Er mai'r Prif Weinidog sydd wedi rhoi'r Cyfarwyddyd ar gais y Prif Swyddog Cyfrifyddu, y rheswm am hyn yw mai dyna'r dull a nodwyd o dan Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yn well cyfeirio unrhyw waith craffu manwl gan y Cynulliad tuag at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan fod y cynigion sydd wedi eu cynnwys yn y Cyfarwyddyd yn gorffwys o fewn eu portffolio a'u cyllideb hwy.

Yn benodol, efallai y bydd y meysydd canlynol yn haeddu archwiliad pellach gan y Cynulliad:

### Effeithiolrwydd cyfathrebu rhynglywodraethol

1. Cyhoeddwyd Cyfarwyddyd Gweinidogol Llywodraeth y DU ar 22 Tachwedd, ond ni chyhoeddwyd Cyfarwyddyd y Prif Weinidog tan 18 Rhagfyr. Beth yw'r rheswm am y bwlch amser o bedair wythnos rhwng y ddau Gyfarwyddyd?
2. Pryd daeth Llywodraeth Cymru yn ymwybodol am y tro cyntaf o fwriad Llywodraeth y DU i weithredu datrysiad 'Scheme Pays' i bensiynau'r GIG?
3. Mae llythyr yr Ysgrifennydd Parhaol, dyddiedig 18 Rhagfyr, at y Prif Weinidog yn esbonio nad oedd swyddogion wedi nodi'r mater o reoleidd-dra mewn perthynas â'r posibilrwydd o osgoi treth yn eu cyflwyniad ar 26 Tachwedd i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Pam cafodd y pwynt allweddol hwn ei adael allan o'u hystyriaeth, o gofio bod mater y rheoleidd-dra eisoes wedi'i drafod yn benodol yng Nghyfarwyddyd Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd ar 22 Tachwedd?
4. Mae llythyr yr Ysgrifennydd Parhaol, dyddiedig 18 Rhagfyr, yn cynnwys dyfyniad allan o 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru', sy'n nodi ym mharagraff 5.6.1 y 'dylai fod yn arferiad cyffredin, cyn symud ymlaen, i ymgynghori â HMRC ynghylch trafodion sy'n cynnwys ymagweddau ansafonol at drethi'. Fodd bynnag, mae'r llythyr yn dawel ar y pwynt hwn. A wnaeth Llywodraeth

Cymru ymgynghori â HMRC, neu a yw wedi dibynnu ar Lywodraeth y DU i wneud hynny ar ei rhan? Os mai'r olaf, pa sicrwydd a dderbyniodd Llywodraeth Cymru?

**Goblygiadau cyllidebol**

5. Nid yw'r Cyfarwyddyd yn rhoi unrhyw arwydd o'r gost ddisgwyliedig. Pa amcangyfrifon mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud o ran y lefel bosibl o wariant afreolaidd y gallai ei achosi yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20 a thu hwnt? Pa mor hyderus ydyw yn yr amcangyfrifon hynny?

6. Sut y caiff y gwariant ei ariannu? A fydd cyrff GIG Cymru yn derbyn cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn i dalu costau'r cynllun, neu a fydd disgwyl iddynt dalu am hyn allan o'r adnoddau sydd eisoes wedi eu dyrannu iddynt?

7. A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu parhau â'r trefniadau hyn yn y blynyddoedd i ddod, os bydd ymgynghoriad arfaethedig Llywodraeth y DU ym mis Ebrill 2020 ar newidiadau i ddeddfwriaeth pensiynau'r GIG naill ai'n cael ei ohirio neu ddim yn arwain at newidiadau i'r ddeddfwriaeth honno?

**Proses Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi Cyfarwyddiadau Gweinidogol**

8. A oes gwersi i Lywodraeth Cymru o'r profiad cyntaf hwn o gyhoeddi Cyfarwyddyd Gweinidogol ers datganoli yn 1999? Beth ydynt?

9. Pa newidiadau (os o gwbl) y gellid yn fuddiol eu gwneud i'r gofynion a nodir yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' ar gyfer unrhyw Gyfarwyddiadau yn y dyfodol?

Deallaf fod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn bwriadu ystyried y Cyfarwyddyd Gweinidogol yn ei gyfarfod ar 6 Ionawr, a gobeithiaf y bydd y cyngor hwn o gymorth i'r Pwyllgor yn ei drafodaethau.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chadeirydd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon. Oherwydd mai dyma'r tro cyntaf i Gyfarwyddyd Gweinidogol gael ei roi ers dechrau datganoli, rwyf hefyd yn anfon copi at y Llywydd fel y gall hithau ystyried unrhyw gynsail gweithdrefnol y bydd hwyrach yn ei osod neu unrhyw faterion fydd yn codi.

Yn gywir



**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**